# Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mawrth, 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd R.Meirion Jones **(Cyngor Sir Ynys Môn)** (Yn y Gadair) |
| | **Cyngor Gwynedd** |
| | Cynghorydd Elin Walker Jones, E.Caerwyn Roberts |
| | **Cyngor Sir Ynys Môn** |
| | Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes, MBE, Gwilym O.Jones |
| **WRTH LAW:** | Prif Seicolegydd Addysgol (Mr Gareth Payne)<br>Pennaeth Dysgu (Mrs Delyth Molyneux) (CSYM)<br>Swyddog Addysg ADY (Dr Einir Thomas) (CSYM)<br>Rheolwr Prosiect (Eleri Llewelyn) (Cyngor Gwynedd)<br>Uwch Gyfrifydd Addysg (Mrs Kathy Bell) (Cyngor Gwynedd)<br>Swyddog Pwyllgor (Ann Holmes) (CSYM) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Cadeirydd), Ieuan Williams (CSYM) Beth Lawton (Is-Gadeirydd), Eirwyn Williams (Cyngor Gwynedd) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Kenneth Hughes (Aelod Portffolio Addysg CSYM) |

---

### 1 CADEIRYDD

Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, etholwyd y Cynghorydd R.Meirion Jones yn Gadeirydd y cyfarfod hwn o'r Cyd-Bwyllgor.

### 2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

### 3 COFNODION CYFARFOD 18 TACHWEDD, 2016

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd, 2016 ac fe'u nodwyd.

### 4 CYFLWYNIAD AR Y STRATEGAETH ADY A CHYNHWYSIAD AR Y CYD

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Cyd-Bwyllgor ar y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas ag amserlen yr ail-strwythuro yng nghyswllt dod â'r Strategaeth ADY a Chynhwysiad ar y Cyd i weithrediad.

Cyfeiriodd Swyddog Addysg ADY Cyngor Sir Ynys Môn at y cerrig milltir canlynol –

- Penodi'r Tîm Arweinyddiaeth erbyn Gwanwyn 2017
- Cyfarfodydd un i un gyda phob aelod o staff wedi'u cynnal
- Llenwi'r swyddi ar y strwythur gwasanaeth erbyn 31 Mai, 2017
- Y gwasanaeth newydd ar y cyd i ddod yn weithredol o 1 Medi, 2017
- Cyngor Gwynedd fydd y cyflogwr

Aeth y Swyddog rhagddi i amlinellu'r cynnydd hyd yma gan gyfeirio at y gweithgareddau canlynol –

- Bod y ddau Uwch Reolwyr wedi'u penodi
- Bod y pedwar Swyddog Ansawdd ADY a Ch wedi'u penodi
- Hysbyseb am Arweinydd Addysg wedi'i gyhoeddi
- Camau yn cael eu cymryd i benodi Uwch Gwnselydd ac Uwch Athro Cyfathrebu a Rhyngweithio
- Sylw yn cael ei roi i faterion staffio gan gynnwys trosglwyddiad staff allweddol i'r swyddi o fewn y Strategaeth

Dywedodd y Swyddog y byddai'r camau nesaf yn cynnwys rhoi sylw i'r agweddau a nodir isod –

- Y ddau Uwch Reolwr i gymryd arnynt ddyletswyddau ADY a Chynhwysiant Môn a Gwynedd ar ddechrau tymor yr Haf
- Sicrhau bod y staffio allweddol yn ei le erbyn 31 Mai, 2017
- Bod y trefniadau llywodraethiant wedi'u cytuno arnynt
- Bod y gwasanaeth traws awdurdod yn cael ei gynllunio a'r gweithdrefnau yn eu lle erbyn diwedd tymor yr Haf

Yng nghyswllt materion gweinyddol, mae angen rhoi ystyriaeth i'r elfennau a ganlyn –

- Rôl rheoli gwybodaeth y Gwasanaeth; rôl yr Uned Ddata a'r Swyddog Data ADYa Ch
- Trafodaeth swyddfeydd ardal Gwynedd a thîm gweinyddol Ynys Môn
- Cefnogaeth weinyddol i sicrhau monitro effeithiol
- Trefniadau cyfarfodydd adolygu; rheoli cofnodion fforymau; rhannu gwybodaeth; diweddaru gwefannau gwybodaeth; cefnogi staff a rheolwyr penodol

Dangoswyd i'r Cyd-Bwyllgor ddeiagram o sut fydd y Tîm Integredig newydd a'r elfennau oddi mewn iddo yn cwmpasu Gwasanaethau ADY a Gwasanaethau Cynhwysiad, yn edrych.

**Nododd y Cyd-Bwyllgor y wybodaeth.**

## 5 MODEL LLYWODRAETHU AR GYFER Y STRATEGAETH ADY A CHYNHWYSIAD AR Y CYD

Cylchredwyd siart llif er sylw'r Cyd-Bwyllgor a oedd yn dangos trefniant llywodraethiant y Gwasanaeth ADY a Ch i'w ddarparu gan Gyngor Gwynedd ar ran Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn. Cyflwynwyd hefyd dabl yn gosod allan y fforymau llywodraethiant o dan y Strategaeth newydd, eu cyfrifoldebau a'u cylch gorchwyl.

Nodwyd bod y canlynol yn fforymau newydd yn y trefniadau llywodraethiant a fyddant yn ychwanegol i Dimau Rheoli Addysg y ddwy sir a'r Cabinet yng Ngwynedd a'r Pwyllgor Gwaith ym Môn y maent eisoes mewn bodolaeth –

Uwch Dîm Rheoli Gwasanaeth ADY a Ch

Bwrdd Monitro a Chraffu ADY a Ch Gwynedd a Môn
Cyfarfodydd Pennaeth Addysg Gwynedd a Phennaeth Dysgu Ynys Môn

Eglurodd Swyddog Addysg ADY Cyngor Sir Ynys Môn sut y byddir yn gwneud cais am gymorth ychwanegol yn unol â'r Strategaeth; dywedodd y byddai'r broses o roi cymorth yn llawer cynt o dan y drefn newydd. O ran y plant hynny y mae eu hanghenion yn rhai dwys bydd y llwybr at ddatganiad neu cymorth oriau penodol gyda chymhorthydd yn dal i fodoli ac ar gael iddynt; fodd bynnag y bwriad yw targedu'r plentyn yn gynt fel bo llai o angen am ymyrraeth ddwys.

Dywedodd Pennaeth Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn y bydd y meini prawf a'r trothwyon mynediad at gymorth ychwanegol a weithredir gan y Fforymau ardal yn gyson ar draws y ddwy sir sy'n golygu y bydd y cyfle cyfartal o fewn y gwasanaeth yn gyfansawdd yn gryfach. Byddir yn arfarnu llwyddiant yr ymyrraeth drwy gasglu canlyniadau'r plant a'u hadrodd i'r ddau awdurdod. Caiff ansawdd y gwasanaeth hefyd sylw rheolaidd trwy'r Bwrdd Monitro a Chraffu. Yn ogystal bydd adroddiadau yn cael eu cyflwyno i bwyllgorau craffu perthnasol y ddwy sir er mwyn iddynt gael gweld beth yw natur y buddsoddiad yn y gwasanaeth a'i ganlyniad o ran perfformiad y grwp yma o blant fel y gallant arfarnu a yw'r gwasanaeth yn cynnig gwerth am arian ai peidio. Bydd unrhyw benderfyniadau penodol ynghylch hynny yn cael eu gwneud gan Gabinet Cyngor Gwynedd a Phwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn.

Dywedodd Swyddog Prosiect Cyngor Gwynedd mai crynodeb a gyflwynir trwy'r siart llif a'r tabl cyfrifoldebau, a cheir rhagor o fanylion yn y ddogfen bartneriaeth. Byddid yn gwerthfawrogi unrhyw sylw y carai aelodau'r Cyd-Bwyllgor eu cyflwyno mewn perthynas â lefel yr atebolrwydd y mae'r drefn newydd yn ei gynnig naill ai yn y cyfarfod hwn neu o fewn y bythefnos nesaf.

Bu i'r Cyd-Bwyllgor ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd gan wneud y sylwadau canlynol –

- Bod y Cyd-Bwyllgor yn dymuno gweld parhau gyda'r cyfle sydd yn bodoli yn bresennol i holi gwasanaethau yn uniongyrchol megis y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol a'r Gwasanaeth Athrawon Arbenigol.

Dywedodd Pennaeth Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn y bydd monitro a thracio pob gwasanaeth unigol yn erbyn mesuryddion yn cael ei gyflawni gan y Bwrdd Monitro a Chraffu ADY a Ch Gwynedd a Môn y bydd Aelod o Gabinet Gwynedd ac Aelod Portffolio o Bwyllgor Gwaith Ynys Môn yn gynrychiolwyr arno.

- Bod y Cyd-Bwyllgor yn dymuno gweld Aelodau Meinciau Cefn hefyd yn cael y cyfle i graffu'r gwasanaeth.

Cadarnhaodd Pennaeth Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn y byddai hynny yn digwydd trwy gyfrwng y drefn graffu yn y ddwy sir. Gan fod trefniadau a chapasiti pwyllgorau craffu yn gallu amrwyio o sir i sir gofynnir am farn y Cyd-Bwyllgor ynglyn ag amlder cyflwyno adroddiadau i bwyllgorau craffu Ynys Môn a Gwynedd.

Cynigiodd y Cyd-Bwyllgor bod adroddiadau ynglyn â'r Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad ar y cyd newydd yn dod gerbron pwyllgorau craffu Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn ddwywaith y flwyddyn i gychwyn.

**Cytunwyd y dylai deunydd y cyflwyniadau gael ei gylchredeg i aelodau'r Cyd-Bwyllgor nad oeddent yn bresennol er mwyn rhoi cyfle iddynt hwythau hefyd gynnig sylwadau ar y cynnwys.**

## 6 DIWEDDARIAD ARIANNOL

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Gwasanaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn ymgorffori cyllideb ar gyfer y Cyd-Bwyllgor am y cyfnod Ebrill i Awst 2017. Gan fod y Cyd-Bwyllgor yn dod i ben fel endid ar 31 Awst, 2017 roedd y gyllideb yn cynrychioli gwerth 5 mis o gostau yn unig.

Adroddodd Prif Gyfrifydd Addysg Cyngor Gwynedd nad oedd ganddi ddim newydd i'w adrodd yng nghyswllt cyllideb gyfredol 2016/17 heblaw am nodi mai'r bwriad, yn ddarostyngedig i sylwadau gan yr archwilwyr allanol yw cyflwyno cyfrifon terfynol y Cyd-Bwyllgor am 2016/17 i Bwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod arweiniol dan y trefniant newydd ar ôl 31 Awst, 2017.

O safbwynt cyllideb 2017/18 yr unig elfen newydd ynddi yw'r Ardoll Prentisiaeth sy'n cael ei gyflwyno am y tro cyntaf yn 2017/18 sydd yn 0.5% o gost cyflogau staff y Cyd-Bwyllgor. Mae gwir sefyllfa staffio Ebrill, 2017 fel a ganlyn –

- 9.7 Seicolegwyr (yn cynnwys dwy hyfforddai)
- 7.0 Athrawon Arbenigol
- 1.4 Uwch Gymorthyddion
- 4.4 Staff Gweinyddol

Bu oedi gydag ad-leoli staff i Bencadlys Cyngor Gwynedd ond disgwylir y bydd hyn yn digwydd yn fuan. Bydd cyfraniad Gwynedd am y 5 mis yn £313,100 a chyfraniad Ynys Môn yn £174,060 ynghyd â £23,000 o arbedion nas darganfuwyd sy'n dod â chyfanswm cyfraniad Ynys Môn i £197,000. Bydd yr awdurdodau yn talu beth bynnag yw gwir gost y Cyd-Bwyllgor am y cyfnod o Ebrill i Awst, 2017.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r gyllideb am 2017/18, sef am y cyfnod 5 mis o Ebrill i Awst, 2017.**

## 7 CYFARFOD NESAF Y CYD-BWYLLGOR

Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Cyd-Bwyllgor am 10:30 y bore, ddydd Gwener, 23 Mehefin, 2017 yng Nghaernarfon a bod y cyfarfod yn cael ei gynnull yn benodol i gymeradwyo cyfrifon drafft y Cyd-Bwyllgor am 2016/17 cyn eu harchwilio.

**Cynghorydd R. Meirion Jones**
**Cadeirydd**